

## **Llandaf: Gwelliannau i Gerddwyr ar Rodfa'r Gorllewin / Caewal Road**

### **Disgrifiad o Gynnig y Cynllun**

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch cynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Rodfa'r Gorllewin (A48) ger Caewal Road. Mae pryderon wedi eu codi am gyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr yn y lleoliad hwn. Mewn ymateb, mae swyddogion wedi ymchwilio i ddewisiadau i wneud gwelliannau a fydd yn helpu i greu amgylchedd priffordd fwy diogel.

Y prif faterion diogelwch ffordd a nodwyd ar y rhan hon o'r A48 oedd cerbydau yn goryrru, methu ag aros mewn pryd, a diffyg cyfleusterau croesi i gerddwyr ger Caewal Road. Y bwriad yw cyflwyno cyfyngiad cyflymder newydd o 30mya, bydd gostwng y cyfyngiad cyflymder yn creu amgylchedd priffordd fwy diogel gan fod gan yrwyr wrth yrru'n arafach fwy o amser i ymateb i amodau ffordd sy'n newid. Bydd y newid hwn i'r cyfyngiad cyflymder yn destun proses Gorchymyn Rheoli Traffig cyfreithiol ar wahân.

Yn ogystal â'r newid yn y cyfyngiad cyflymder bydd y cynllun hefyd yn cyflwyno codi croesfan Twcan newydd ger Caewal Road, sydd ar lwybr cerdded i nifer o ysgolion lleol. Ar hyn o bryd mai lloches ansafonol i gerddwyr yn y lleoliad hwn. Bydd y camau hyn yn creu amgylchedd fwy diogel i gerddwyr, yn enwedig defnyddwyr sy'n agored i niwed megis disgyblion ysgol, a bydd yn gwella hygyrchedd i'r ardal gymunedol, siopau lleol a gwasanaethau bysiau.

Mae'r cynllun hwn felly wedi ei ddatblygu er mwyn:

- Lleihau cyflymdra cerbydau
- Codi croesfan Twcan newydd


Sicrhawyd cyllid ar gyfer y cynllun hwn gan gronfa Grant diogelwch ffyrdd Llywodraeth Cymru.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau ar y cynigion. Deallwn efallai fod gennych awgrymiadau ar gyfer gwelliannau eraill i wella diogelwch ar hyd Rhodfa'r Gorllewin. Oherwydd cyfyngiadau cyllidol mae'n bosib na fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynlluniau hyn ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau a dderbyniwn i'w cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol.

Os carech wneud unrhyw sylw am y cynnig hwn yna gadewch i ni wybod erbyn 30/8/2019 trwy e-bost at: [ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3354.

**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau' neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **30/8/2019**



**The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **30/8/2019**